

Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 03-01(p.5) (W)

Dyddiad: Dydd Gwener 13 Gorffennaf 2001

Amser: 10.30am hyd 1.00pm

Lleoliad: Neuadd y Gymuned, Llanidloes

Papur oddi wrth Gyngor Gwarchod Cefn Gwald Cymru

Y mae YDCW yn cefnogi'n llwyr y pwyslais a roddir ar ddatblygu Ynni Adnewyddol (YA) gan y Cynulliad. Nid oes angen ail-adrodd y y rhesymau dros bwysigrwydd i yrru 'mlaen gydag YA ac, yn ddi-os, mae gan Gymru gyfraniad fawr i'w wneud o dan Y Cynllun Datblygiad Cynaladwy.

Yn ogystal, rydym yn croesawu y gwaith ymchwil cyfredol i osod seiliau cydnabyddedig ar gyfer y dyfodol a, maes o law, llunio Strategaeth Ynni ar gyfer ein gwlad. Edrychwn ymlaen i weld y pwyslais priodol yn cael ei roi ar y galw a chadwraeth ynni yn ogystal â chyflenwi.

Rydym hefyd yn croesawu'r sylw'r Cynulliad ar Gynllunio Gwlad a Thref (Gweithgor Tan 8 a Rhwydwaith Cynllunio Gofodol, er enghraifft). Dim ond wrth gael fframwaith strategol a gofodol gellir symud ymlaen gyda Strategaeth Ynni dderbyniadwy ac effeithiol.

Yr hyn rhaid nodi yw bod nifer o ddulliau technolegol yn perthyn i YA ac mae'n gresyn o beth nad ydynt i gyd wedi cael y sylw haeddianol o ran adnoddau a rhaglenni ymchwil. Rhaid cywiro'r diffyg cyd-bwysedd fel mater o flaenoriaeth.

Un nodwedd o nifer o dechnolegau YA yw eu bod yn ddatganoledig ac nid oes enghraifft gwell o hyn nag ynni o'r haul ac mae'n glir erbyn hyn ei fod yn addas i lawer mwy o lefydd na'r trofannau! . Rhyfedd yw meddwl bod mwy o ynni o fewn heulwen un diwrnod i gyflenwi anghenion holl boblogaeth y byd , 5.9 biliwn, am 27 mlynedd! Ar raddfa fyd-eang, rhwng 1990 a 1995, dyma'r sector (gyda gwynt) lle bu'r ar gyfartaledd, y cynnydd mwyaf o fewn cyflenwyr ynni.⁽¹⁾ Nid yw adeiladau gyda defnydd helaeth o baneli ffotofoltaic mor bell i ffwrdd - hyd yn oed yng Nghymru.

Dull arall sydd heb gael y sylw iawn yw'r defnydd o gelloedd tanwydd. Efallai bod lle yng

Nghymru i hybu ymchwil yn y dechnoleg hon - tanwydd y dyfodol , o bosib.

Mae potensial i'w gael gyda biomas ond nid drwy ddefnyddio gorsafoedd mawrion fel yn Newbridge-on-Wye. Y mae cludo tunneli o danwydd mas uchel/dwysedd ysgafn am filltiroedd i ganolbwynt yn nwfyn yng nghefn gwlad yn siwr o greu problemau amgylcheddol. Buasai nifer o orsafoedd llai, o ryw 5MW, wedi'u lleoli ger y mannau cynhyrchu yn fwy derbyniol gan y buasant hefyd yn osgoi'r angen am gludiant dros bellter. Fel mater o drefn buasai rhaid ystyried pob un yng nghyd-destun graddfam lleoliad a safle.

Heblaw am yr haul, dwr, o bosib, yw'r grym adnewyddol mwyaf yn benofod yn y môr a'i donnau. Ceir potensial aruthrol i ddatblygu YA dibynadwy yma ond mae angen buddsoddiad sylweddol. Er mwyn gwneud gwir wahaniaeth rhaid i YA gynhyrchu cannoedd o MW. Y mae cynlluniau Tidal Electric plc.⁽²⁾ ar gyfer y 'llynnoedd llanw' yn y môr ger Rhyl ac Abertawe yn gyffrous ond gyda chwestiynau amgylcheddol mawr fel, yn wir, ceir gyda Bared yr Hafren. Amcenir y buasai'r prosiect hwn, yn ei hun, yn cynhyrchu tua 7% o'r galw DU am drydan. Yn anorfod, buasai'r costau, yn ogystal â'r cwestiynau amgylcheddol, yn sylweddol iawn.

Allan ar y môr hefyd mae gwir potensial ynni gwynt. Y mae YDCW wedi dadlau ers blynddoedd mai gorsafoedd gwynt o gryn faint ar y môr yw'r lle gorau ar gyfer ynni gwynt. Y mae'r diwydiant Ynni Gwynt ei hun yn cydnabod mai yma mae'r dyfodol ac, ar hyn o bryd, y mae trwyddedau gwely'r môr a systemau rheoli yn cael eu paratoi ac mae'r drafodaeth amgylcheddol yn mynd rhagddi rhwng pawb â diddordeb.

Gyda'r holl botensial wrth law nid yw YDCW yn cytuno gyda'r pwyslais ar godi gorsafoedd ynni gwynt ar ucheldir ac arfordir Cymru. Er bod ynni gwynt yn cynnig ynni gwasgaredig ac nid yw'r tyrrau yn defnyddio fawr o le ar y llawr, maent hefyd yn dangos nodwedd arall o YA sef maint y tir-ddefnydd. Ni all neb wadu maint y tir-ddefnydd mewn termau effaith weledol o beiriannau mawr (erbyn hyn bron 100medr) yn troi a throi, ac wrth gwrs, gyda lluosogi'r tyrbinau mae'r effaith yn un gynyddol.

Fel rhan o gyfraniad ein gwlad i gysyniad ddatblygu cynaladwy bydol gall Cymru hawlio ei le fel wlad 'werdd' oherwydd safon ei dirweddau ysblennydd a'i gynefinoedd amrywiol a thoreithog. Yma, ceir digon o gyfleoedd i gael 'lle i enaid cael llonydd' a throsglwyddir y dyhead hwn i fuddiannau economaidd sylweddol drwy'r diwydiant twristiaeth gwledig. Dengys amcangyfrifon mewn adroddiad diweddar pa mor bwysig gall y gweithgarwch hyn fod⁽³⁾ ond fe'i brofwyd yn ddi-amheuol mewn modd anffodus a phoenus gyda chanlyniadau difrifol Clwyf Traed a Genau.

Mae'r rhaglen bresennol datblygu ynni gwynt yn gwrthdaro gyda gwarchod yr ased amgylcheddol ac economegol hwn. Y mae'r Bwrdd Croeso wedi dangos pryder am yr effaith ar y diwydiant⁽⁴⁾. Fel dengys y Tabl⁽⁵⁾ gan Geoff Sinclair, Ymgynghorydd YDCW, y mae'r 362 tyrbîn presennol eisioes yn cynhyrchu cyfran galw Cymru am ynni gwynt-ar-y-tir sydd gyfystyr â'r opsiwn uchaf yn nharged 2010/10% Ynni Adnewyddol y DU. Wrth ychwanegu gorsafoedd

gyda chaniatad cynllunio (neu yn y broses) daw'r cyfran yn 7.1%. Y mae'r potensial yn codi eto wrth ystyried contractau ymarferol NFFO i 12.4%. Pe gwireddid rhain i gyd buasem yn gwynebu gorfod cael hyd i le i rhwng 800 -1000 tyrbin o rhyw 100 medr uchder. Hefyd, bydd mwy eto o dan yr Ymrwymiad Adnewyddol.

Y mae'r obligiadau'n glir - gall y sylw gormodol a heb gyfiawnhad ar un dechnogel YA amharu'n ddifrifol a chynnyddol ar ran helaeth o ganolbarth Cymru wrth ei droi yn 'ffatri wynt' enfawr gan fygwth ased amgylcheddol bwysig dros ben. Nid ydym am weld creu problem amgylcheddol wrth ymddangos ein bod yn datrys un arall. Y mae'n andros o her i geisio cymhathu gofynion YA gyda diogelu nodweddion ansawdd hynod tirwedd Cymru ond rhaid ei wynebu a'i wynebu mewn modd cyfansawdd ac nid, fel mae'r tueddiad weithiau, yn unlygeidiog

O dan arweiniad Y Cynulliad gellir creu gwlad fydd yn ddigon aeddfed i gynnwys hyfrytwch yn ei hafaeliad amgylcheddol. Buasai hynny, yn ei hunan, yn gyfraniad sylweddol gan Gymru i fater o gynnaladwyedd y fyd-eang.

1. Dyfynwyd yn y New Internationalist Mehefin 2001 o World Watch Institute
2. Gwefan International Fuel Cells. Is-gwmni United Technologies Corporation
3. Midmore, Gwerth Economaidd Cerdded yng nghefn gwlad Cymru, Mawrth 2000
4. Bwrdd Croeso Cymru: penderfyniad cyfarfod Mis Hydref 2000
5. Geoffrey Sinclair, Environmental Information Services